Prifysgol Bangor

6 Gorffennaf 2020

Yr Athro G Roberts (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr H Ellis, Mr S Griffith, Mr A Jones, Mr W Jones, Yr Athro P Mullins, Dr K Mundy, Mr G Parry, Mrs R Parry, Miss E Riches, Dr H Roberts, Mrs J Roberts, Dr G Robinson, Ms M Rowlands, Yr Athro P Spencer, Mrs E Parry Williams, Mr M Williams, Mr G W Jones (Ysgrifennydd)

: Mrs T Hibbert, Mr L Wiegand, Mr H Williams, Dr J Latchford, Mrs G Hine, Mr T Williams

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 11 Mawrth 2020.

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

Mae'r grŵp tasg wedi cyfarfod unwaith ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Nodwyd yr eitem allweddol ganlynol, ynghyd ag eraill i'w codi fel eitemau ar agenda'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch:

i. *Ystadegau:* Oherwydd bod staff yn gweithio gartref a bod mwy na 300 o staff ar 'ffyrlo', bu gostyngiad sylweddol yn yr adroddiadau o absenoldebau salwch, ac ni adroddwyd am unrhyw ddamweiniau na digwyddiadau ers dechrau'r cyfnod 'clo'. Mae hyn yn digwydd ar draws y sector prifysgolion.
   Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai'r angen i adrodd am absenoldeb salwch a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â gwaith yn cael ei atgyfnerthu trwy'r Bwletin Staff ac yn uniongyrchol trwy Benaethiaid Ysgolion / Gwasanaethau Proffesiynol.

iv. Mae’r Grŵp Addysgu a Dysgu, yn ogystal â sawl agwedd arall, yn nodi pa addysgu y gellir

Mae'r papur yn crynhoi'r camau a gymerwyd hyd yma a'r camau pellach sydd eu hangen i roi sylw i’r risgiau iechyd a diogelwch posibl i staff sy’n gweithio gartref. Rhennir y papur yn ddau gategori, sef gweithio gyda chyfarpar sgrin arddangos a lles meddyliol.

Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

i. Mae canllawiau i staff ynglŷn â gweithio gartref a materion yn ymwneud â chyfarpar sgrin arddangos a lles meddyliol wedi bod yn eu lle fel rhan o’r Cwestiynau Cyffredin am y Coronafeirws ar y wefan ers wythnos gyntaf y cyfnod clo.

ii. Mae adran Lles wedi'i sefydlu ar dudalennau gwe’r adran adnoddau dynol i ddarparu gwybodaeth am gymorth gyda lles meddyliol ac i sôn am yr adnoddau sydd ar gael.  Mae'r rhain yn cynnwys Care First, sy’n darparu gwasanaethau cymorth i weithwyr y brifysgol ac adnoddau gan rai o arbenigwyr y brifysgol ei hun ar les meddyliol.

iii. Ar d.02 50 1 13A.32 8 1902 45665 02 45.50.26 re230102000E124A140180102301020160 11